# HYSBYSIAD ARCHWILIO CYFRIFON CYNGOR SIR CEREDIGION A'R HARBYRAU AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31/03/26

**Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004**
**Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014**
**Ddeddf Harbyrau 1964**

Mae modd i unrhyw etholwr lleol archwilio a gwneud copïau o'r cyfrifon uchod ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26, ynghyd â'r holl lyfrau, gweithredoedd, contractau, biliau, talebau a derbynebau sy'n perthyn i'r cyfrifon hynny. Gellir gwneud hyn yn y Gwasanaeth Cyllid a Chaffael, Cyngor Sir Ceredigion County Council rhwng 18 Awst a 15 Medi 2026, o ddydd Llun i ddydd Gwener bob wythnos, rhwng 10.00 y bore a 4.00 y prynhawn.

Dylech gysylltu â df.technicians@ceredigion.gov.uk neu ffonio 01545 570881 yn y lle cyntaf i drefnu apwyntiad, os hoffech archwilio'r cyfrifon. Bydd y Datganiad o Gyfrifon ar gael hefyd ar ein gwefan: www.ceredigion.gov.uk

Ar 16 Medi 2026 ac ar ôl y dyddiad hwnnw, gall unrhyw etholwr llywodraeth leol yn yr ardal y mae'r cyfrifon yn ymwneud â hi ofyn am gyfarfod ag Archwilydd Cyffredinol Cymru neu'i gynrychiolydd a'i holi am y cyfrifon. Rhaid i hawl yr etholwr i wrthwynebu'r cyfrifon gael ei gyflwyno'n ysgrifenedig i Archwilydd Cyffredinol Cymru (Archwilio Cymru, 1 Cwr y Ddinas, Stryd Tyndall, Caerdydd) a'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gweithredol: Cyllid a Chaffael (Prif Swyddog Cyllid a Swyddog Adran 151) (Cyngor Sir Ceredigion County Council, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron) gan nodi ar ba sail y gwneir y gwrthwynebiad.